


# Cyfarwyddwr Bwrdd Annibynnol

## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

**2026**

Xplore! Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Science Discovery Centre

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

Xplore! Natur | Nature

# Croeso gan y Bwrdd

**Diolch am eich diddordeb mewn dod yn aelod o Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru (rhif elusen gofrestredig 1102959)**

Mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn elusen addysgiadol sydd â chyrhaeddiad ac effaith eang. Mae'n rhedeg canolfan ddarganfod gwyddoniaeth, Xplore! sydd wrth galon Canol Dinas Wrecsam, a darpariaeth ysgol goedwig, Xplore! Byd Natur, ar safle coedwig hynafol yn Llaneurgain, Sir y Fflint

Mae'r elusen yn cyflawni rhaglen allgymorth ysgolion gydag ysgolion a cholegau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Ei chenhadaeth yw rhannu gwyddoniaeth a STEAM yn ehangach (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, y Celfyddydau, a Mathemateg) gyda phawb waeth beth fo'u hoedran, hunaniaeth, gallu, a chefndir.

Mae'r elusen yn ymwneud ag oddeutu 60,000 o bobl bob blwyddyn, a hynny drwy'r cyhoedd ac ysgolion yn ymweld â'r ganolfan wyddoniaeth, a gweithgareddau allgymorth yn y gymuned a chydag ysgolion. Mae'r elusen yn is-gwmni i Brifysgol Wrecsam sy'n eiddo yn llwyr iddi ac yn cyfrannu'n sylweddol at ei chenhadaeth ddinesig a'i heffaith ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae gan yr elusen gynllun uchelgeisiol gwerth miliynau o bunnoedd ar gyfer ei dyfodol, sef Xplore! 2.0, ac mae eisoes wedi sicrhau gwerth £1.7M o gyllid. Dros y 18 mis nesaf, byddwn yn gweld planetariwm newydd yn cael ei datblygu ac arddangosfa yn seiliedig ar y gofod ar gyfer plant sy'n iau na 5 oed.

Gydag enw da am gynhwysiant, amrywiaeth, a hygyrchedd, mae Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn croesawu ymddiriedolwyr, staff, ac ymwelwyr o bob cefndir. Mae'r elusen yn cyflogi 40 aelod o staff ac yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith a gwirfoddoli yn rheolaidd.



# Rôl Gwyddoniaeth Gogledd Cymru

## Y Bwrdd

*Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau hyfywedd yr Elusen a diogelu ei asedau, ac am bennu cymeriad Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'i alluogi i gyflawni a datblygu ei genhadaeth a'i brif amcanion:*

- **Hyrwyddo cynnydd addysg gwyddoniaeth a thechnoleg a dysg i bawb a all elwa ohoni, ac yn benodol, gwneud hynny drwy gynnal a sicrhau parhad arddangosfa er mwyn archwilio cysyniadau gwyddonol,**
- **Annog ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o arwyddocâd gwyddoniaeth a thechnoleg mewn cymdeithas, a**
- **Hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd drwy raglenni addysgiadol, gwyliau gwyddoniaeth a gweithgareddau eraill**

**Mae prif rinweddau aelodau'r Bwrdd sy'n Ymddiriedolwyr yr Elusen yn cynnwys y gallu i gwestiynu'n ddeallus, trafod yn adeiladol, herio'n drylwyr a gwrando'n sensitif ar safbwyntiau eraill yn ystod y cyfarfod a thu hwnt. Tair blynedd yw'r cyfnod yn y swydd.**

**Mae'r Bwrdd yn goruchwylio gweinyddiaeth, cyllid a chyfeiriad strategol Xplore! Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth.**

# Ymrwymiad Amser

**Mae'r ymrwymiad amser blynyddol yn cynnwys pum hanner diwrnod o gyfarfodydd Bwrdd, digwyddiad strategaeth diwrnod llawn, nifer fechan o weithdai datblygu yn ôl yr angen, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol dewisol.**

**Nid yw'r rôl yn un â thâl; fodd bynnag, ad-delir treuliau teithio a threuliau eraill rhesymol a ysgwyddir wrth gynnal busnes Gwyddoniaeth Gogledd Cymru**

# Amrywiaeth y Bwrdd

Mae angen cydbwysedd o arbenigedd o fewn yr aelodaeth, ac mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau yn rhan bwysig o'r cydbwysedd hwnnw, os yw'r Bwrdd wir am gynrychioli ei genhadaeth a'i amcanion.

Mae'r Bwrdd yn ceisio chwalu unrhyw rwystrau a allai rhwystro pobl rhag mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Bwrdd ac yn croesawu datganiadau o ddiddordeb gan bobl o bob cefndir ar gyfer ystyried eu penodi.

# Y Rôl

### Cyflwyniad

1.1 Llywodraethir Gwyddoniaeth Gogledd Cymru gan Fwrdd Cyfarwyddwyr sydd hefyd yn cael eu galw'n Ymddiriedolwyr, gan fod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn Elusen. Mae Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth effeithiol Xplore!, ac am gynllunio ei ddatblygiad ar gyfer y dyfodol a chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol.

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd, boed yn Annibynnol (aelod lleyg), aelod staff neu fyfyrwyr, ddod ag ymddygiadau penodol i'r Bwrdd. Dylent gwestiynu yn ddeallusol, trafod yn adeiladol a herio'n drylwyr, a hefyd gwrando'n sensitif ar safbwyntiau eraill.

Mae disgwyl i aelodau'r Bwrdd chwarae rhan briodol mewn sicrhau y cynhelir busnes angenrheidiol y Bwrdd yn effeithlon, effeithiol, ac mewn ffordd briodol i gynnal busnes cyhoeddus yn gywir. Mae disgwyl iddyn nhw wneud cyfraniadau rhesymegol ac adeiladol at drafodaethau a rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gyda'r Bwrdd wrth i gyfleoedd ddod i'r amlwg.

2.2 Mae gan Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb am sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu yn unol â Chenhadaeth Elusennol y Bwrdd, ei nodau ac amcanion a dylent geisio rhagor o gyngor gan y Clerc mewn achos o ansicrwydd.

2.3 Mae gofyn i aelodau'r Bwrdd dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd am y penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd. Ni all aelodau'r Bwrdd a etholwyd, a enwebwyd neu a benodwyd gan etholaethau penodol weithredu fel petaent wedi'u dirprwyo gan y grŵp y maent yn ei gynrychioli, ac ni chânt eu rhwymo gan unrhyw fandadau y rhoddir iddyn nhw gan unigolion eraill.

## Safonau a Chynnal Busnes Cyhoeddus yn Gywir

3.1 Ymddiriedir yn Gwyddoniaeth Gogledd Cymru gyda chyllid preifat a chyhoeddus, ac felly mae gan y Bwrdd ddyletswydd benodol i gynnal y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau a dangos uniondeb a gwrthrychedd wrth gynnal eu busnes, a lle bynnag bo'n bosibl, dilyn polisi o dryloywder a natur agored wrth rannu eu penderfyniadau. Mae ffynonellau cyllid mor amrywiol hefyd yn gofyn i Gwyddoniaeth Gogledd Cymru lynu wrth yr arfer dda sy'n briodol i gyrff y sector preifat a chyhoeddus.

3.2 Dylai aelodau unigol o'r Bwrdd a'r Bwrdd ei hun ymddwyn yn unol â'r safonau derbyniol o ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus bob amser, ac mae hynny'n golygu ymddwyn yn anhunanol, yn onest, yn wrthrychol, yn atebol, yn agored, a chydag arweinyddiaeth. Rhaid i aelodau unigol y Bwrdd hefyd lynu wrth y gofynion a nodir yng Nghod Ymddygiad Prifysgol Wrecsam ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae'n rhaid iddyn nhw ddarparu gwybodaeth o'r fath i Ysgrifennydd y Cwmni a / neu'r Cadeirydd yn ôl yr angen i sicrhau y bodlonir gofynion o'r fath e.e. datgelu buddiannau, *curriculum vitae* neu wybodaeth bersonol berthnasol.

3.3

Er mwyn cynnal busnes cyhoeddus yn gywir, mae'n hollbwysig bod cadeiryddion ac aelodau'r Bwrdd yn gweithredu ac yn ymddangos yn ddiduedd, ac nad yw eu rôl fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr yn cael ei dylanwadu gan berthnasoedd cysylltiadau cyhoeddus busnes cymdeithasol. Rhaid i aelodau ddatgelu buddiannau personol yn llawn ac yn brydlon i Ysgrifennydd y Cwmni yn unol â'r gweithdrefnau a gymeradwywyd gan Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'i riant-gwmni Prifysgol Wrecsam. Cyn gynted ag y bo modd, mae'n rhaid iddyn nhw ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddyn nhw mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n destun trafodaeth a derbyn dyfarniad y Cadeirydd o ran rheoli'r drafodaeth honno, fel bod uniondeb busnes Gwyddoniaeth Gogledd Cymru fel elusen yn cael ei gynnal.

3.4 Gan fod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn Elusen, mae gan aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb am sicrhau bod Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn ymarfer defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Elusen er mwyn hyrwyddo ei ddibenion elusennol, cynnal ei hyfywedd ariannol hirdymor, diogelu ei asedau, a sicrhau bod gweithdrefnau go iawn yn bodoli i sicrhau rheolaeth ariannol ac i atal twyll.

## Busnes y Bwrdd

4.1 Mae gan aelodau gyfrifoldeb am sicrhau bod Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn ymarfer rheolaeth dros gyfeiriad strategol Xplore! drwy broses gynllunio effeithiol, a bod perfformiad Xplore! yn cael ei asesu'n addas yn erbyn y nodau sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru.

4.2 **Cynllunio Strategol:** Mae gan Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ddyletswydd i alluogi Xplore! i gyflawni a datblygu ei genhadaeth a'i brif nodau o ran dysgu ac addysgu, ac ymchwil. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys ystyried a chymeradwyo cynllun strategol Xplore!, sy'n gosod nodau ac amcanion yr Elusen ac yn nodi'r strategaethau ariannol, ffisegol a staffio sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn.

4.3 **Monitro Effeithiolrwydd a Pherfformiad:** Dylai Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru fonitro ei effeithiolrwydd ei hun a pherfformiad Xplore! yn erbyn ei strategaethau a nodwyd a thargedau gweithredol.

4.4 **Cyllid:** Mae cyfrifoldebau ariannol Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn cynnwys:

Sicrhau hyfywedd Elusen Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a diogelu ei hasedau, a chymeradwyo'r strategaeth ariannol

• Cymeradwyo cynlluniau gweithredu a chyllidebau blynyddol, a ddylai adlewyrchu cynllun strategol Xplore!, gan sicrhau bod cyllid a ddarperir gan gyrff ariannu yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd wedi'u nodi yn y cytundebau perthnasol.

• Sicrhau bodolaeth, uniondeb, a monitro systemau rheoli risg, rheoli a llywodraethu
• Derbyn a chymeradwyo cyfrifon

4.5 **Archwiliad:** Mae Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn gyfrifol am gyfeirio a goruchwylio'r trefniadau ar gyfer archwiliad mewnol ac allanol. (Y gallant ddewis ei ohirio i'r rhiant-gwmni, gan fod Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn rhan o Grŵp Prifysgol Wrecsam)

4.6 **Rheolaeth Adnoddau Dynol: Rheolaeth:** Mae gan Fwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru gyfrifoldeb am bolisi cyflogaeth ac adnoddau dynol Xplore! Mae hyn yn cynnwys sicrhau y pennir tâl ac amodau cyflogaeth yn gywir a'u bod ar waith ar gyfer yr holl gategorïau gweithwyr.

4.8 **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Dylai Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru sicrhau bod systemau anwahaniaethol ar waith i ddarparu cyfle cyfartal, gan hyrwyddo diwylliant sy'n cefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws yr Elusen ar gyfer staff a myfyrwyr taledig.

4.9 **Iechyd a Diogelwch:** Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru sy'n bennaf gyfrifol am iechyda diogelwch gweithwyr, ymwelwyr ac unigolion eraill pan fyddant ar dir Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ac mewn lleoliadau eraill y mae ei weithrediadau o bosibl yn effeithio arnynt. Mae dyletswyddau'r Bwrdd yn cynnwys sicrhau bod gan Gwyddoniaeth Gogledd Cymru ddatganiad polisi ysgrifenedig ar iechyd a diogelwch, a threfniadau o ran gweithredu'r polisi hwnnw.

4.10 Fel arfer, bydd aelodau yn cael eu penodigan Fwrdd Llywodraethwyr y Rhiant-Gwmni (Prifysgol Wrecsam) ond bydd yn cynnwys cynrychiolaeth gan Gwyddoniaeth Gogledd Cymru.

## 5. Y Rôl Allanol

5.1 Efallai y bydd gofyn i aelodau gynrychioli Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn allanol er mwyn eu galluogi i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

5.2 Efallai y bydd gofyn i aelodau ddefnyddio sgiliau rhwydweithio a dylanwadu personol ar ran Gwyddoniaeth Gogledd Cymru (y rôl 'agor y drws').

5.3 Efallai y bydd gofyn i aelodau chwarae rhan yn y gwaith o gysylltu rhwng rhanddeiliaid allweddol a Gwyddoniaeth Gogledd Cymru neu mewn gweithgareddau codi arian. Byddant yn cael eu briffio'n llawn gan Gwyddoniaeth Gogledd Cymru i'w galluogi i ymgymryd â'r rôl hon yn effeithiol.

## 6. Rhinweddau Personol

6.1 Bydd gan aelodau ymrwymiad personol cadarn i genhadaeth ac amcanion Gwyddoniaeth Gogledd Cymru

6.2 Bydd aelodau bob amser yn gweithredu yn deg ac yn ddiduedd er budd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd, gan ddefnyddio beirniadaeth annibynnol a chynnal cyfrinachedd fel sy'n briodol.

6.3 Disgwylir i aelodau fynychu holl gyfarfodydd Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru neu estyn ymddiheuriadau prydlon os na ellir osgoi absenoldeb. Fel arfer, trefnir dyddiadau cyfarfodydd o leiaf chwe mis ymlaen llaw.

6.4 Disgwylir i aelodau ddarllen papurau agenda ymlaen llaw, gofyn cwestiynau priodol mewn cyfarfodydd a chymryd rhan mewn trafodaethau i roi sicrwydd i'w hunain bod materion yn cael eu rheoli'n briodol gan y Bwrdd.

6.5 Dylai aelodau gymryd rhan mewn gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Bwrdd ar gyfer adolygiad/arfarniad rheolaidd o berfformiad aelodau unigol a gwerthusiadau'r Bwrdd. Dylai aelodau fynychu unrhyw weithgareddau cynefino a drefnir gan Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant priodol fel y rhai a drefnir gan sefydliadau allanol. Bydd y Clerc yn tynnu eu sylw at y rhain.

6.6 Nodir y dyddiad dechrau ffurfiol a chyfnod y penodiad, ynghyd ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, mewn llythyr penodi.

6.7 Mae'n debygol mai cyfanswm yr ymrwymiad amser a fydd yn ofynnol gan yr aelodau yw 30-50 awr y flwyddyn a byddai hyn yn cynnwys pum cyfarfod Bwrdd, dau i bum cyfarfod pwyllgor a nifer o ddigwyddiadau neu gyfarfodydd ychwanegol a allai fod angen i Gyfarwyddwr eu mynychu e.e. seremonïau dyfarnu, agoriadau swyddogol, cyfarfodydd arbennig y bwrdd, sesiynau cynefino a datblygu.

# Rhagor o Wybodaeth

**Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru a'r Brifysgol yn xplorescience.co.uk/cy/our-governance**

# Sut i Wneud Cais

*Os hoffech wneud cais i ymuno â Bwrdd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru, cyflwynwch eich CV ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n nodi'r rhesymau dros eich diddordeb mewn ymuno â'r Bwrdd i'r Clerc, [yvonne. Wake@wrexham.ac.uk](mailto:yvonne.Wake@wrexham.ac.uk)*

*Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 5.00pm 30ain Mehefin 2026 Amserlen*

*Recriwtio*
*Cyfweliadau: Gorffennaf 2026*


A